# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**<u>Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Hydref 8 2024</u>**

DRAFT

**120.10.24. Presennol:- Cynghorwyr :-** Trefor Jones; Karena Owens; Gwilym Jones; Aled Griffith ( Cadeirydd); Glenda Murray; Dr Melfyn Edwards; Carol Hayes; Alwyn Gruffydd; Llywelyn Rhys; Michael Roberts
Marian Roberts ( Clerc)
**121.10.24. Ymddiheuriadau:-** Cyng John Gwynedd Roberts;

Cyn dechrau'r cyfarfod yn swyddogol roedd y Cadeirydd yn dymuno croesawu aelod newydd y Cyngor Tref dros ward Gorllewinol Porthmadog, Glenda Murray, i'w chyfarfod cyntaf.

**122.10.24 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-**

- **Cyfarfod Llawn Medi 10 2024**

Cafwyd yn gywir yn ôl Cyng Gwilym Jones, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

- **Cyfarfod Arbennig Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo Medi 18.2024**

Cafwyd yn gywir yn ôl Cyng Gwilym Jones, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

**123.10.24 Adroddiad y Clerc**
**Cafwyd diweddariad ar y canlynol :-**

- **Llewyrch o'r llechi** –Y Cadeirydd, Cyng Gwilym Jones a'r Clerc wedi bod i weithdy Howard Bowcott ar 25.9.24 i weld y datblygiadau yn y gwaith celf llechi. Bydd cyfarfod eto ar 23.10.24 i weld cynnydd pellach.
- **Boston Lodge** – amryw o'r cynghorwyr wedi derbyn gwahoddiad i fynd i weld y datblygiadau newydd yn Boston Lodge ar 23.9.24 ac wedi mwynhau'r profiad yn arw.
- **Coed Nadolig** – popeth wedi ei drefnu erbyn hyn.
- **Goleuo Port** – y Clerc wedi trefnu i gael Gwyn Vaughan Jones ( Arthur ar Rownd a Rownd) i gyflwyno'r noson.
- **Coeden Nadolig Tremadog** – y trydanwr wedi condemnio'r goleuadau presennol oherwydd perygl. Y Clerc felly, gyda chydsyniad y cynghorwyr, wedi archebu goleuadau newydd.
- **Sul y Cofio 10.11.24** – mae'r trefniadau a threfn y gwasanaeth eisoes wedi eu rhannu.

**124.10.24 Datgan diddordeb**

1. Cyng Gwilym Jones – 125.10.24 cais cynllunio
2. Cyng Gwilym Jones – 145.10.24 cyfethol

**125.10.24 CEISIADAU CYNLLUNIO**

Gadawodd Cyng Gwilym Jones yr ystafell cyn y drafodaeth.

**(a) Rhif Cais / Application No.: C24/0620/44/LL ( wedi ebostio 11.9.24)**
Lleoliad / Location: Clwb Golff Porthmadog Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd,LL49 9UU
Bwriad / Proposal: Gosod rhwyd i atal peli golff. Installing a net to stop golf balls

**Penderfynwyd :-** dim gwrthwynebiad.

Dychwelodd Cyng Gwilym Jones wedi'r drafodaeth.

**(b) Rhif Cais / Application No.: C24/0736/44/LL ( wedi ebostio 17.9.24)**
Lleoliad / Location: Caffi Bwlch Y Moch, Bwlch Y Moch Cafe, Bwlch Y Moch Ffordd Prenteg, Tremadog,Porthmadog, Gwynedd, LL49 9SN
Bwriad / Proposal: Bwriad ar gyfer gosod pedwar gorsaf gwefru cerbydau trydan cyflym ychwanegol ac offer ategol ynghyd â symud y piler bwydo presennol a'i ddisodli gan giosg wedi'i diweddaru i gartrefu offer mesur ar gyfer gwefrwyr ychwanegol ar y safle.
Proposal for the installation of four additional rapid electric vehicle charging stations and ancillary equipment along with removal of the existing feeder pillar to be replaced with updated kiosk to house metering equipment for additional chargers on site.
**Penderfynwyd :-** dim gwrthwynebiad.

**© Rhif Cais / Application No.: C24/0778/44/DT ( wedi ebostio 25.9.24)**
Lleoliad / Location: 39 Y Ddôl, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9HY
Bwriad / Proposal: Dymchwel garej a chodi estyniad un llawr newydd sy'n cynnwys modurdy newydd, ystafell amlbwrpas a chegin.Demolition of garage & erection of new single storey extension containing garage, utility and kitchen.
**Penderfynwyd :-** dim gwrthwynebiad.

## MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF

**126.10.24 Cymeradwyo penderfyniadau'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 18.9.24**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a chymeradwyo penderfyniadau'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 18.9.24 yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd , Cyng Gwilym Jones yn eilio.
**127.10.24 Llenwi ffurflen Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Gwynedd (Gohebiaeth 7A)**
Dangoswyd copi o'r ffurflen gymhleth hon ar y sgrîn. Mae'n gofyn am fanylder ac arbenigedd yn y maes i'w llenwi yn gywir. Bydd y Clerc yn ei llenwi – hyd eithaf ei gallu – ar ran y cynghorwyr ac yn gofyn iddynt ei gwirio cyn ei dychwelyd i'r Adran Cynllunio.
**128.10.24 Ethol cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol y Gorlan**
**Penderfynwyd :-** gohirio'r penderfyniad hyd nes bydd aelod arall wedi ei gyfethol i gynrychioli ward Tremadog yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Carol Hayes yn eilio.

## MATERION I'W DWYN GERBRON :-

**129.10.24 Cyng Llywelyn Rhys :- cynnig datgan anfodlonrwydd am leoliad presennol y ddraig.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig yn ogystal â'r gwelliant, yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, i ofyn i'r Y.G.C. am eu rhesymau dros beidio ei gosod yn y lleoliad gwreiddiol, Cyng Michael Roberts yn eilio.
**130.10.24 Cyng Llywelyn Rhys:- cynnig gwneud cais i bwyllgor y Ganolfan i aelodau'r Cyngor Tref gael parcio am ddim tra'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Tref.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig, Cyng Carol Hayes yn eilio.

Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd cytunodd Cyng Alwyn Gruffydd i gadeirio'r cyfarfod tra'n trafod cynigion y Cadeirydd, Cyng Aled Griffith.
**131.10.24 Cyng Aled Griffith :- cynnig gweithredu i ddathlu dau-ganmlwyddiant adeiladu'r harbwr.**
Trafodwyd y syniad o gynnal penwythnos o weithgareddau i ddathlu'r 200mlwyddiant gan efelychu rhai o syniadau digwyddiad Cob 200 yn 2011 gan gynnig digwyddiad fyddai'n apelio at drigolion



DRAFT

Porthmadog.
**Penderfynwyd :-** holi'r Amgueddfa Forwrol; yr Harbwrfeistr; haneswyr lleol; ysgolion lleol os oes ganddynt gynlluniau ar gyfer dathlu'r achlysur a disgwyl am eu ymateb cyn mynd ati i wahodd aelodau o'r sefydliadau yma i greu pwyllgor llywio gyda rhai aelodau o'r Cyngor Tref er mwyn trefnu'r dathliad, yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

**132.10.24 Cyng Aled Griffith:- cynnig cynyddu amlder cyfarfodydd yr Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo**
**Penderfynwyd :-** gadael y mater ar y bwrdd i'w drafod yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2025. Dychwelodd y Cadeirydd, Aled Griffith i gadeirio'r cyfarfod.

**133.10.24 Cyng Carol Hayes :- Cynnig bod y Rhaglen yn cynnwys "Adroddiad" gan gynghorwyr am achlysuron / pwyllgorau mae nhw wedi eu mynychu fel cynrychiolwyr Cyngor Tref Porthmadog.**
Newidwyd y cynnig i roi **"Adroddiad" yn y Cyfarfod Blynyddol gan gynghorwyr am achlysuron / pwyllgorau mae nhw wedi eu mynychu "**ar ddiwedd eu cyfnod yn cynrychioli'r Cyngor Tref yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

**134.10.24 Cyng Gwilym Jones:- Cynnig bod y Cyngor Tref yn mabwysiadu Polisi yn benodol ar gyfer ceisiadau ariannol er mwyn diogelu'r Cyngor a'i gwneud yn gliriach i ymgeiswyr beth yw'r disgwyliadau o ran manylion eu cais a'r cadarnhâd bod y Cyngor yn sicrhau bod yr arian wedi ei ddefnyddio i ddiwallu gofynion y cais.**
**Penderfynwyd :-** gadael y mater ar y bwrdd i'w drafod yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2025 yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**135.10.24 Cyng Carol Hayes :- Cynnig dod i benderfyniad am yr holl fflagiau uwchben siopau Porthmadog. Maent mewn cyflwr difrifol erbyn hyn.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig yn ogystal â gwelliant Cyng Michael Roberts i ymchwilio i brisiau baneri gyda phwysau ynddynt a gwelliant Cyng Glenda Murray i ofyn i Wasg Eryri ddylunio baner bwrpasol i ddathlu 200 mlwyddiant adeiladu'r Harbwr.

**136.10.24 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Tachwedd 12 2024 = Tachwedd 2 2024 , ( Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

**137.10.24 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (**copi ynghlwm**).**
**Penderfynwyd:-** derbyn y wybodaeth ac ail-yrru ebyst 7.8.24 i Euryn Williams C.G. a dileu popeth sydd wedi derbyn ymateb.

<u>**GOHEBIAETH :**</u>

| | | |
|---|---|---|
| **138.10.24** | SANDRA BODDEN JONES | **Llythyr ymddiswyddiad**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a'r Clerc i yrru llythyr o ddiolch iddi gan ei gwahodd i ystyried ail ymuno â'r Cyngor Tref yn y dyfodol yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys. |
| **139.10.24** | ANGHARAD AB IORWERTH<br>HUW M. OWEN | **Breuddwydion Bro**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a phasio'r mater ymlaen i'r Is-Bwyllgor Eiddo yn ôl cynnig Cyng Alwyn |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | Gruffydd, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio. |
| **140.10.24** | SIAN PARRY | **Perthyn – gwarchod y Gymraeg**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth |
| **141.10.24** | IWAN AP TREFOR C.G. | **Ymateb i 92.9.24 Ken Skates – 20 m.y.a**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth |
| **142.10.24** | IWAN AP TREFOR C.G. | **Ymateb i 94.9.24 tagfeydd Morfa Bychan**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth |
| **143.10.24** | Y GANOLFAN | **Derbyn cynnig prynu Diffibriliwr a chabinet**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a'r Clerc i fynd ymlaen i archebu diffibriliwr a chabinet a hysbysu'r Ganolfan o'r penderfyniad iddynt ei osod ar wal allanol y Ganolfan. |
| **144.10.24** | LINDA LEE C.G. | **Cynllun Datblygu Lleol**<br>**Ffurflen gais**<br>**Map ffin ddatblygu**<br><br>Gweler cofnodion 127.10.24<br>Nodwyd nad oedd allwedd ar y map i egluro'r lleoliadau ac mai ond un map oedd wedi ei gynnwys.<br>**Penderfynwyd :-** y Clerc i ofyn am fap ar gyfer Tremadog, Morfa Bychan Borth y Gest cyn mynd ati i lenwi'r ffurflen. |
| **145.10.24** | GWILYM JONES | **Ymddiswyddiad fel aelod dros Ynys Galch a chais am gyf-ethol fel aelod dros Morfa Bychan**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn ymddiswyddiad Cyng Gwilym Jones fel aelod dros Ynys Galch.<br>Gadawodd Cyng Gwilym Jones yr ystafell tra bu trafodaeth ynglyn â'i gais i fod yn aelod dros Morfa Bychan.<br><br>Roedd Cyng Llywelyn Rhys yn awgrymu y dylid gohirio'r broses o gyfethol tan gyfarfod fis Tachwedd er fod y Clerc wedi sicrhau fod y broses o roi Rhybudd o Sedd Wag a Rhybudd o Gyfethol wedi ei gyflawni'n ôl trefn Gwasanaeth Etholiadol Gwynedd. Roedd yn dymuno cofnodi ei bleidlais yn erbyn.<br>**Penderfynwyd :-** cyfethol Cyng Gwilym Jones yn aelod dros Morfa Bychan yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Michael Roberts yn eilio.<br><br>Dychwelodd Cyng Gwilym Jones i'r cyfarfod. |
| **146.10.24** | CWMNI DA | **Diolch am gael ffilmio Garddio a Mwy yng Nghae Pawb**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth |
| **147.10.24** | BRYN PRITCHARD JONES C.G. | **Ymateb i 94.9.24 tagfeydd Morfa Bychan**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth |
| **148.10.24** | TRAFNIDIAETH CYMRU | **Ymateb i 109.9.24 T2 yn osgoi Tremadog**<br>**Penderfynwyd :-**<br>• derbyn y wybodaeth a gyrru copi o'r ohebiaeth i sylw Mabon ap Gwynfor a Chomisiynydd Pobl Hŷn<br>• gofyn am enw'r sawl sydd wedi ymateb er mwyn dangos atebolrwydd<br>yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Llywelyn Rhys yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | eilio. |
| **149.10.24** | TÏM TACLUSO | **Ymateb i 101.9.24 meinciau ar y Cob**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth ac ymgynghori â Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, cyn gweithredu ymhellach, yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards. |
| **150.10.24** | FFION GWYN | **Bwrdd gwybodaeth Madocks**<br>Dangoswyd drafft 2 o ddyluniad Ffion Gwyn ar y sgrîn a chytunwyd fod y gwaith yn cynnwys gormod o destun ac nad oedd yn hawdd iawn i'w ddarllen. Cytunwyd fod angen iddo fod yn fwy gweledol a deniadol i'r llygad er mwyn tynnu sylw'r darllenydd a bod y ffurf bresennol yn rhy draddodiadol.<br>**Penderfynwyd :-** y cynghorwyr i yrru eu sylwadau /awgrymiadau i'r Clerc a hithau i drefnu cyfarfod â Ffion Gwyn er mwyn trafod ymhellach. |
| **151.10.24** | BLEDDYN RHYS C.G.<br>MEL AB OWAIN - UN LLAIS CYMRU | **Sut i gofnodi rhodd Medi Harris ar y cyfrifon**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a'r Cadeirydd i ddigolledu'r Cyngor Tref am y £350 allan o Lwfans y Cadeirydd. |
| **152.10.24** | HANNAH JOYCE C.G. | **Cynlluniau celf / datblygu Porthmadog**<br>Mynegwyd anfodlonrwydd ynglyn â'r cynllun i osod llechi ar balmentydd y dref yn cofnodi enwau llefydd i ble roedd llechi yn cael eu hallforio oherwydd :-<br>• nad oedd ymgynghoriad llawn wedi bod gydag aelodau'r Cyngor Tref<br>• fod rhai o'r milltiroedd yn anghywir<br>• nad oedd mewn cys-destun<br>• y byddent yn well wedi eu lleoli ym Mhencei.<br>Cafwyd sawl awgrym arall ar sut i gyflwyno'r wybodaeth yma ar ffurf weledol.<br>**Penderfynwyd :-** ymateb i'r ebost i ddangos gwerthfawrogiad o'r cynllun a gofyn am gyfle i gyfarfod â Hannah Joyce er mwyn cyflwyno syniadau'r Cyngor Tref fel bod y C.T. yn cael rhoi mewnbwn priodol i'r cynllun yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Glenda Murray yn eilio. |

DRAFT

**<u>153.10.24 MATERION ARIANNOL</u> :**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| H.S.B.C. | Llog Banc Awst Medi 2024 | £57.62 |
| Fisher German | National Grid arolwg Cae Bodawen | £600.00 |

**Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio:-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a Wê Medi 2024 | £68.28 |
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Medi 2024 | £1,536.86 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Medi 2024 | £386.46 |
| 4 | Defib Store Ltd | Padiau sbâr | £108.00 |
| 5 | Defib Store Ltd | Defib a chabinet Borth y Gest | £1,537.44 |
| 6 | Major Owen | Gwasanaeth ac atgyweirio strimmer Cae Pawb | £237.42 |
| 7 | Turnock | Goleuadau newydd i goeden Nadolig Tremadog | £761.61 |
| 8 | Ashley Hughes Cyf | Papur argraffu melyn | £14.39 |
| 9 | *Gardencraft | Llenwi tybiau blodau | £420.00 |

*wedi ei ychwanegu i'r rhaglen.

( Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 21.15

Marian Roberts

( Clerc )

11.10.24

DRAFFT